Hawdd ei Ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cronfa Darganfod

## Cronfa i blant a phobl ifanc




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cronfa Darganfod**.'

**Ebrill 2023**


Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni

**Ffôn**: 029 2044 1300

**E-bost:** grantiau@celf.cymru

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd i'w deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif Trwydded Photosymbols yw 403527247

# Cynnwys

**Tudalen**


**Am y Gronfa Darganfod........................................................4**

**Pwy sydd yn gallu gwneud cais.........................................6**

**Am beth rydw i'n gallu gwneud cais?...............................8**

**Y cwestiynau fydd angen i chi eu hateb........................12**

**Sut ydw i'n gallu gwneud cais?.......................................13**

**Help...........................................................................................14**

# Am y Gronfa Darganfod



Mae’r **Gronfa Darganfod** ar gyfer ysgolion yng Nghymru sydd â phlant rhwng 3 ac 16 oed. Rydyn ni’n galw’r rhain yn ddysgwyr.



Mae’n helpu dysgwyr i roi cynnig ar/ neu geisio gwneud gwahanol fathau o gelf.



Mae’r  Gronfa Darganfod yn rhoi grantiau o hyd at £3000 o bunnoedd.




Mae’n gallu cael ei ddefnyddio ar gyfer pethau yn yr ysgol neu y tu allan i’r ysgol.

Mae’r gronfa yn cynnwys:



- Celf



- Dawns




- Drama
- Ffilm



- Cyfryngau digidol



- Cerddoriaeth



Gelwir y rhain hefyd yn gelfyddydau mynegiannol.

# Pwy sydd yn gallu gwneud cais



Mae'r Gronfa ar gyfer ysgolion gyda dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed.




Rhaid i'r ysgolion fod yn ysgolion gwladol.



Neu unedau cyfeirio disgyblion. Math arall o ysgol ydy'r rhain.



Dydyn ni ddim yn gallu cefnogi pobl ifanc mewn addysg bellach. Er enghraifft, yn y coleg.



Mae’r ceisiadau yn gallu dod o:

- Ysgol sy’n cael ei rhedeg gan y wladwriaeth.

- Uned cyfeirio disgyblion.

- Sefydliad celfyddydau neu ddiwylliannol sydd wedi’i leoli yng Nghymru.



Mae’r Gronfa yn gallu cael ei defnyddio ochr yn ochr gyda chronfeydd eraill er enghraifft y prosiect Ewch i Weld.



Mae sefydliadau celfyddydol yn gallu gwneud cais am y Gronfa Darganfod ochr  yn ochr â grantiau eraill.


# Am beth ydw i'n gallu gwneud cais?



Mae'r Gronfa Darganfod yn gallu cael ei defnyddio fel bod dysgwyr yn gallu rhoi cynnig ar wahanol fathau o gelf, sydd hefyd yn cael eu galw yn gelfyddydau mynegiannol.



Fe fydd yn cael ei ddarparu gan sefydliad celfyddydol, neu **ymarferydd creadigol**. Mae hyn yn meddwl rhywun sy'n ymarfer y celfyddydau fel ei swydd.



Mae'r gweithgaredd yn gallu digwydd ar 1 diwrnod neu ar nifer o ddiwrnodau.

# Pa gostau mae'r gronfa yn gallu talu amdanyn nhw

**Mae'r gronfa yn gallu talu costau fel:**



- Ffioedd sefydliadau celfyddydol neu ymarferwyr creadigol.



- Costau teithio.



- Cost deunyddiau hyd at £500.




- Llogi offer.

**Dyma rai o’r costau dydyn ni ddim yn gallu eu talu:**




- Gweithgareddau sydd wedi dechrau yn barod.



- Dysgu cerddoriaeth.



- Aros dros nos.




- Gweithgarwch y tu allan i Gymru.



- Bwyd a diod.



Os ydych chi angen arian ar gyfer mynd i berfformiadau a digwyddiadau, edrychwch ar ein **cronfa Ewch i Weld** yn: creativelearning.arts.wales/cy/ariannu/gwneud-cais/dysgu-creadigol/ewch-i-weld



Dydyn ni ddim yn gallu rhoi'r holl gyllid rydych chi ei angen. Ond rydyn ni'n gallu rhoi y rhan fwyaf ohono, hyd at 90% o beth rydych chi ei angen. Hyd at £3000.



Mae gweddill yr arian yn gallu dod o arian parod gan riant neu o gronfa'r ysgol. Fe fydd angen i chi ddweud wrthyn ni yn y cais.

# Y cwestiynau fydd angen i chi eu hateb

Fe fydd y ffurflen gais yn gofyn cwestiynau fel:



- Cyfanswm cost y gweithgaredd.

- Ar gyfer beth mae’r costau.



- Beth ydy’r gweithgaredd, a phwy sy’n ei ddarparu.



- Lle mae’r gweithgaredd yn digwydd.

- Sut rydych chi’n mynd yno.



- Oedran y dysgwyr.



- Sut fydd y gweithgaredd yn helpu dysgwyr i roi cynnig ar y gwahanol fathau o gelf, sydd hefyd yn cael eu galw yn **gelfyddydau mynegiannol**.

# Sut ydw i'n gallu gwneud cais?




Rydych chi'n gallu gwneud cais am yr arian trwy fynd i'n porth ar-lein yma: porth.celf.cymru




Fe fydd angen i chi gofrestru ar ein porth yn gyntaf.




Fe ddylech chi gofrestru o leiaf 5 diwrnod cyn dechrau eich cais.

# Help

Os ydych chi angen help i wneud cais, cysylltwch â:




**E-bost:** grantiau@celf.cymru




**Ffôn:** 029 2044 1300
or 03301 242733 (llinell gymorth).
Codir tâl am alwadau lleol.

# Beth ydy'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais?



Does dim dyddiad cau.



Fe ddylech chi glywed yn ôl gennym o fewn 4 wythnos i wneud cais am y cyllid.



Gwnewch gais rhyw 5 wythnos cyn y bydd eich gweithgaredd yn dechrau.



Os oes gennych gwestiynau am y Gronfa Darganfod, anfonwch e-bost inni yn: dysgu.creadigol@celf.cymru




Rydych chi'n gallu cael rhagor o wybodaeth am y celfyddydau mynegiannol yma: hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol